



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol

Awst 2017

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol

1. Cyflwyniad
2. Trosolwg o'r ymatebion
3. Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori penodol yn yr Ymgynghoriad
4. Y camau nesaf

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau statudol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 dros gyfnod o 16 wythnos, rhwng 7 Rhagfyr 2016 a 7 Ebrill 2017. Ymatebodd amrywiaeth o wahanol randdeiliaid i'r ymgynghoriad. Cyfarfu swyddogion â nifer o grwpiau cleifion, staff a rhanddeiliaid i drafod y canllawiau yn ystod yr ymgynghoriad. Cyhoeddwyd dogfennau'r ymgynghoriad a'r canllawiau drafft yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 1.2 Ychwanegodd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 adrannau 25A i 25E at Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar ganllawiau statudol drafft, sy'n ofynnol gan adran 25D o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Bwriedir i'r canllawiau gefnogi'r broses o weithredu adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf honno.
- 1.3 Mae'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016, yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Fyrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu gwasanaethau nyrsio i ystyried, wrth gynllunio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hynny, bwysigrwydd sicrhau bod digon o nyrsys ar gael fel bod ganddynt ddigon o amser i ofalu am eu cleifion mewn ffordd sensitif. Mae'r Ddeddf hefyd yn codeiddio arfer gorau presennol ar gyfer pennu lefelau staff nyrsio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gyfrifo a chynnal lefelau staffio mewn meysydd clinigol penodol.
- 1.4 Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae'r canllawiau statudol hyn yn cwmpasu dau faes.
- Y ddyletswydd yn adran 25B i gyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio
 - Y dull cyfrifo a nodir yn adran 25C
- 1.5 Hefyd, ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar ganllawiau statudol pellach sy'n ymwneud â threfniadau cynllunio'r gweithlu y gall Byrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adrannau 25B a 25C.

Ystyrir rhoi canllawiau anstatudol ar y meysydd hynny nas cwmpesir gan y canllawiau statudol hyn.

2. Trosolwg o'r ymatebion

- 2.1 Cafwyd cyfanswm o 59 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Daeth 53 o'r ymatebion hyn i law gan ddefnyddio'r holiadur ar-lein, gyda nifer o ymatebion pellach yn cael eu dychwelyd drwy e-bost neu drwy'r post. Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn trafod themâu cyffredinol y canllawiau heb ymateb i'r cwestiynau'n uniongyrchol. Ystyriwyd y rhain yn adran themâu cyffredinol y crynodeb hwn o'r ymgynghoriad.
- 2.2 O'r ymatebion a atebodd y fformat ymgynghori penodol, cafwyd 21 o ymatebion gan aelodau o staff y GIG, 14 gan sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, 12 gan Fyrddau Iechyd Lleol / Ymddiriedolaethau'r GIG / cyrff cysylltiedig, tri gan aelodau o'r cyhoedd a thri gan sefydliadau eraill nas rhestrir uchod.
- 2.3 Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi adborth ar bob rhan o'r canllawiau. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr ond rhoi sylwadau ar adrannau penodol o ddiddordeb, gan olygu bod llai na 53 o ymatebion i nifer o'r cwestiynau.
- 2.3 Hefyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor ddefnyddiol oedd pob adran ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu ddim yn ddefnyddiol o gwbl a 5 yn golygu defnyddiol iawn. Rhoddir sgorau cyfartalog y cwestiynau hyn yn y dadansoddiad o gwestiynau unigol.
- 2.6 Ceir atodiad o'r ymatebion yn atodiad A i'r ddogfen hon (ni chynhwysir manylion personol lle gwnaeth ymatebwyr ofyn yn benodol iddynt beidio â chael eu cyhoeddi).

3. Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori penodol yn yr Ymgynghoriad

Dull gweithredu cyffredinol

- 3.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr werthuso'r canllawiau yn gyffredinol. Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu ddim yn ddefnyddiol o gwbl a 5 yn golygu defnyddiol iawn, rhoddwyd sgôr gyfartalog o 3.53 i'r canllawiau yn gyffredinol. Dadansoddir y canlyniadau yn y tabl isod.

Dull gweithredu cyffredinol						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb		
1	1					2.1%	1		
2	2					10.6%	5		
3	3					27.7%	13		
4	4					53.2%	25		
5	5					4.3%	2		
6	Ddim yn gwybod					2.1%	1		
Dadansoddi		Cymedr:	3.53	Gwriad Safonol:	0.9	Cyfradd Boddhad:	50.64	wedi ateb	47
		Amrywiad:	0.8	Cyfeiliornad Safonol:	0.13				

- 3.2 Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod y canllawiau yn glir ac yn hawdd eu deall, gyda'r farn hon yn cael ei hadlewyrchu gan **staff y GIG, Byrddau Iechyd Lleol / Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd**. Fodd bynnag, ychwanegodd staff y GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd y byddai'r canllawiau yn anodd i weithiwr proffesiynol anfeddygol eu deall.
- 3.3 Nododd 29% o **staff y GIG** fod y canllawiau yn rhy amwys a nododd 24% y byddai'n anodd i weithiwr proffesiynol anfeddygol eu deall. Fodd bynnag, roedd 24% o staff o'r farn bod y canllawiau yn glir ac yn hawdd eu deall. Dywedodd yr un gyfran fod angen canolbwyntio'n fwy ar staff ar lawr gwlad. Cododd 19% o staff bryderon y gellid dehongli lefelau staff fel uchafswm lefelau staff. Nododd 10% o staff y GIG fod y canllawiau yn canolbwyntio gormod ar ddeddfwriaeth.
- 3.4 Roedd 25% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** hefyd yn ategu'r farn bod y canllawiau yn canolbwyntio gormod ar ddeddfwriaeth. Cafwyd hefyd ddau sylw a nododd fod y canllawiau yn rhy amwys. Gwnaed nifer o argymhellion drafftio, fel newid trefn paragraffau ac ychwanegu "clinigol" ar ôl y gair "lleoliad" bob tro.
- 3.5 Nododd 29% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** fod angen canllawiau mwy gweithredol. Fodd bynnag, credwyd bod y canllawiau o hyd

priodol. Cododd y Coleg Nyrsio Brenhinol bryderon am y canllawiau, gan nodi y dylai'r canllawiau gynnwys egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio.

3.6 Ymatebodd dau **aelod o'r cyhoedd** i'r cwestiwn hwn, gydag un yn nodi bod y canllawiau yn hawdd eu deall a'r llall yn nodi nad oedd y fformat yn ddeniadol.

Adran 25B – Dyletswydd i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio

3.7 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar Adran 25B o'r Ddeddf, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Sut y dylai'r person dynodedig gael ei ddewis a sut y dylai gyd-fynd â fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd lleol;
- Beth yw'r gofynion rhesymol y dylid eu bodloni;
- Sut y diffinnir lefel y staff nyrsio;
- Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i gynnal lefel y staff nyrsio;
- Sut y dylai cleifion gael eu hysbysu am lefel y staff nyrsio;
- Y diffiniadau o sefyllfaoedd lle mae adran 25B yn berthnasol.

Person Dynodedig

3.8 Sgôr gyfartalog y rhan hon o'r canllawiau yn ymwneud â'r person dynodedig oedd 3.67, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod.

Person dynodedig			Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb		
1	1		0.0%	0		
2	2		10.2%	5		
3	3		28.6%	14		
4	4		46.9%	23		
5	5		12.2%	6		
6	Ddim yn gwybod		2.0%	1		
Dadansoddi	Cymedr:	3.67	Gwriad Safonol:	0.89	wedi ateb	49
	Amrywiant:	0.79	Cyfeiliornad Safonol:	0.13		

3.9 Dywedodd 67% o **staff y GIG** y byddai angen i'r person dynodedig feddu ar ddealltwriaeth fanwl gywir o'r materion ar lawr gwlad. Ym marn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn, roedd angen cynnig ffordd i reolwyr wardiau gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau a chefnogi llif gwybodaeth i'r person dynodedig. Ym marn 10% o staff y GIG byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn rhy bell o'r ward i allu cyflawni'r rôl hon. Roedd yr angen i gyflwyno dull o roi gwybodaeth i'r person dynodedig hefyd ymhlith ymatebion mwyaf

cyffredin BILlau / Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd.

- 3.10 Roedd nifer fawr o **staff y GIG, BILlau / Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** yn falch bod y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r person dynodedig gofrestru â'r NMC.
- 3.11 Roedd 24% o **staff y GIG** o'r farn na allai rôl y person dynodedig gael ei chyflawni gan un person ac y dylai tîm o unigolion gyflawni'r rôl. Nododd 19% o staff fod y rhan hon o'r canllawiau yn glir.
- 3.12 Credai 25% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** y dylai'r canllawiau nodi bod yn rhaid i'r person dynodedig fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrzio. Roedd yr un gyfran yn siŵr y cawsai'r rôl ei chynnwys yn fframwaith llywodraethu'r Bwrdd.
- 3.13 Credai 14% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd**, gan gynnwys sefydliad academaidd, y dylai fod yn ofynnol i'r person dynodedig gael hyfforddiant ar adnodd cynllunio'r gweithlu.
- 3.14 Cododd **aelod o'r cyhoedd** bryder y byddai angen i'r person dynodedig fod yn ddigon uchel ac annibynnol i wrthsefyll pwysau ariannol gan y Bwrdd.

Gofynion rhesymol

- 3.15 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.37, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod.

Gofynion rhesymol				Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb	
1	1			4.1%	2	
2	2			16.3%	8	
3	3			36.7%	18	
4	4			28.6%	14	
5	5			10.2%	5	
6	Ddim yn gwybod			4.1%	2	
Dadansoddi	Cymedr:	3.37	Gwriad Safonol:	1.12	wedi ateb	49
	Amrywiad:	1.25	Cyfeiliornad Safonol:	0.16		

- 3.16 Cafwyd ystod eang o safbwyntiau ar y rhan hon o'r canllawiau. Codwyd pryderon am gadernid y canllawiau, gyda 24% o staff y GIG yn nodi bod y rhan hon yn rhy amwys neu oddrychol, ac awgrymodd 58% o Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG fod angen i'r geiriad fod yn gryfach gan nad oedd

wedi'i ddiffinio digon. Sylw cyffredin arall a wnaed gan staff y GIG, sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd ac aelodau o'r cyhoedd oedd y dylai'r canllawiau gydnabod bod anghenion ward yn newid drwy'r amser. Hefyd, nododd Byrddau Iechyd, sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd a staff y GIG y dylid cyfeirio at gynnwys y tîm clinigol ehangach yn y broses gwneud penderfyniadau. At hynny, cododd yr ymatebwyr hyn bryderon am ofynion cymysgedd sgiliau ar wardiau.

3.17 Roedd 25% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** o'r farn y dylai'r rhan hon gyfeirio at nifer o ffactorau eraill, gan gynnwys;

- Yr adnodd dibyniaeth aciwtedd
- Fframwaith Sicrwydd ac archwiliadau Bwrdd Iechyd
- Adroddiadau hanfodion gofal
- Adborth o ddangosyddion ansawdd eraill
- Egwyddorion arweiniol

3.18 Cafodd nifer o bwyntiau pellach eu codi gan ymatebwyr unigol, gan gynnwys awgrymiadau y dylid nodi isafswm nifer ar gyfer nyrsys, y dylai penderfyniadau a wneir gan y tîm nyrsio gael eu gwneud gan staff sydd wedi'u cofrestru â'r NMC ac y dylai fod yn ofynnol i'r person dynodedig gael hyfforddiant ar adnodd cynllunio'r gweithlu.

Lefel y Staff Nyrsio

3.19 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.43, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod.

Lefel y staff nyrsio				Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb		
1	1			6.1%	3		
2	2			16.3%	8		
3	3			22.4%	11		
4	4			42.9%	21		
5	5			8.2%	4		
6	Ddim yn gwybod			4.1%	2		
Dadansoddi	Cymedr:	3.43	Gwriad Safonol:	1.16	Cyfradd Boddhad: 48.57	wedi ateb	49
	Amrywiant:	1.35	Cyfeiliornad Safonol:	0.17			

3.20 Y sylw mwyaf cyffredin ar y rhan hon o'r canllawiau oedd y dylid cyfrifo lefel y staff nyrsio yn amlach na phob chwe mis. Hwn oedd yr ymateb mwyaf mynych gan staff y GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd.

- 3.21 Hefyd nododd 19% o **staff y GIG** y dylai fod cymhareb cleifion i staff a argymhellir. Ymhlith ymatebion llai cyffredin staff y GIG roedd y dylid nodi un adnodd yn y canllawiau i'w ddefnyddio ledled Cymru a boddhad y gellir ailgyfrifo yn dilyn newid defnydd / gwasanaeth. Cafodd y sylw hwn ar ailgyfrifo ei ategu gan rai Byrddau Iechyd a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, roedd 25% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** hefyd yn galw am ragor o fanylion ar ystyr newid defnydd / gwasanaeth. Holodd yr un gyfran o Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG p'un a oedd angen hysbysu'r bwrdd o bob newid i lefel y staff nyrsio a wnaed o ganlyniad i newid defnydd / gwasanaeth, ac awgrymwyd efallai y byddai'n ddigon rhoi gwybod am hyn i'r tîm gweithredol.
- 3.22 Nododd 33% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** eu bod yn falch bod y canllawiau yn dweud y dylai dyraniad refeniw ystyried cyflogau staff a pheidio â chael ei bennu yn ôl pwynt cymedr y raddfa. Ceisiodd 17% o'r ymatebwyr hyn eglurhad pellach y câi cyllid ei bennu ar gyfer y lefel ofynnol o staff ac nid dim ond y swyddi a gaiff eu llenwi. O ran y lefel ofynnol o staff, nododd 17% o Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG y dylai cyfeiriad at y cynnydd o 26.9% gael ei gynnwys yn y rhan hon o'r canllawiau, ac y dylid ei gwneud yn glir y dylai adnoddau cyflenwi absenoldebau staff gynnwys absenoldeb mamolaeth.
- 3.23 Teimlai 33% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** fod angen gwell eglurhad o ddata'r adnodd o ran Adnodd Aciwtedd a Dibyniaeth Cymru Gyfan. Roedd hefyd un ymateb a ddynododd y dylid sôn am egwyddorion staff nyrsio Prif Swyddogion Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol.
- 3.24 Dywedodd 10% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** nad oedd yn glir beth roedd yn rhaid i Fyrddau Iechyd ei wneud pan na allant recriwtio digon o nyrsys i gyrraedd lefel y staff nyrsio. Roedd yr holl sylwadau eraill yn sylwadau a wnaed unwaith yn unig gan ymatebwyr unigol, gan gynnwys awgrym y dylai fod dull gweithredu ar gyfer staff rheng flaen i godi pryderon ac y dylai'r canllawiau fandadu rôl oruchwylio'r nyrs sy'n gyfrifol.

Camau rhesymol

- 3.25 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.47, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod.

Camau rhesymol						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb		
1	1					2.0%	1		
2	2					14.3%	7		
3	3					32.7%	16		
4	4					38.8%	19		
5	5					10.2%	5		
6	Ddim yn gwybod						2.0%	1	
Dadansoddi		Cymedr:	3.47	Gwriad Safonol:	0.99	Cyfradd Bodddhad:	49.39	wedi ateb	49
		Amrywiant:	0.98	Cyfeiliornad Safonol:	0.14				

3.26 Yr ymateb mwyaf cyffredin gan **staff y GIG**, a wnaed gan 14% o'r ymatebwyr, oedd bod y meini prawf yn y rhan hon o'r canllawiau yn rhy oddrychol. Codwyd pryderon hefyd gan 10% o'r ymatebwyr ynghylch y defnydd o weithwyr cymorth gofal iechyd i gyflawni dyletswyddau nyrsio. Cafodd yr holl sylwadau eraill eu gwneud gan ymatebwyr unigol yn unig, a oedd yn cynnwys sylwadau y dylai fod gwell hyfforddiant ar gyfer staff cronfa ac asiantaeth, nad yw defnyddio staff cronfa yn rhoi parhad gofal i gleifion, y dylid cyflogi staff i gymryd lle staff sy'n gadael yn gynt ac y dylid defnyddio'r system datex i gofnodi achosion lle na chyflawnir lefel y staff nyrsio.

3.27 Adlewyrchwyd nifer o safbwyntiau gan nifer o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG**. Yn eu plith roedd sylwadau gan 25% y dylai cyfeiriadau at y polisi uwchgyfeirio fod yn fwy penodol a chynnwys proses uwchgyfeirio safonol, ac y dylai camau gweithredol gynnwys adolygu'r cymysgedd sgiliau ar wardiau. Roedd 17% o'r ymatebwyr hefyd o'r farn y dylai'r canllawiau nodi bod defnyddio staff asiantaeth yn hanfodol i staffio wardiau. Tra bod 17% o'r ymatebwyr yn falch bod y canllawiau yn cyfeirio'n benodol at gyfrifoldeb cyffredinol y bwrdd am gyflawni'r ddyletswydd, credai 25% y dylid nodi y caiff cyfrifoldebau cynllunio'r gweithlu eu cyflawni yng nghyd-destun system gynllunio Cymru â chyfrifoldeb gweithredu, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a darparwyr comisiynu addysg. Cafodd hyn ei ategu hefyd gan rai sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd.







3.28 Gofynnodd 17% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** am eglurhad ynghylch pa staff oedd wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau yn sgil gwahaniaethau yn y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y rhan hon o'r canllawiau ac o dan ofynion rhesymol.

3.29 Teimlai 29% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** fod y rhan hon o'r canllawiau yn glir. Gwnaed sawl argymhelliad ar sut i wella'r rhan hon gan gynnwys nodi y dylai'r defnydd o staff asiantaeth fod yn ddewis olaf ac

egluro bod gwaith cronfa ac asiantaeth yn cynnwys darparu gweithwyr cymorth gofal iechyd. Ymhlith y materion a godwyd gan ymatebwyr unigol roedd pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol i ofal yn y gymuned petai staff yn cael eu symud i feysydd clinigol eraill a phryderon ynghylch cau gwelyau ar wardiau.

Hysbysu cleifion

3.30 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.47, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod.

Hysbysu cleifion			Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb		
1	1		8.2%	4		
2	2		22.4%	11		
3	3		28.6%	14		
4	4		26.5%	13		
5	5		12.2%	6		
6	Ddim yn gwybod		2.0%	1		
Dadansoddi	Cymedr:	3.18	Gwriad Safonol:	1.21	wedi ateb	49
	Amrywiant:	1.46	Cyfeiliornad Safonol:	0.17		
			Cyfradd Boddhad:	43.67		

3.31 Nododd nifer fawr o ymatebwyr fod angen i bob Bwrdd Iechyd weithredu mewn dull cyson a safonol. Hwn oedd yr ymateb mwyaf cyffredin gan Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd. Ym marn yr ymatebwyr, roedd angen hyn er mwyn bod yn gyson a thawelu meddyliau cleifion sy'n derbyn gofal ym mhob bwrdd iechyd. Credai rhai ymatebwyr y byddai templed ar gyfer darparu'r wybodaeth hon yn helpu i gyflawni cysondeb.

3.32 Y sylw mwyaf mynych gan **staff y GIG** oedd y dylai'r canllawiau ddarparu ar gyfer gweithdrefn gwyno, gan ei gwneud yn glir i gleifion sut i godi pryderon am lefel y staff nyrsio. Ategwyd hyn gan 24% o staff. Teimlai 14% o staff fod hyn yn rhan allweddol o'r canllawiau ond bod angen mwy o eglurder. Cododd 10% o staff bryderon hefyd am rôl pwy fyddai hysbysu cleifion.

3.33 Credai 25% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** fod angen mwy o eglurder ynghylch pam bod cleifion yn cael eu hysbysu, ac felly pa wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi. O ystyried natur y wybodaeth oedd yn cael ei rhannu, roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r canllawiau ystyried y gallai'r wybodaeth a roddwyd beri trallod i gleifion / teuluoedd. Cymysg oedd y farn ynghylch p'un a oedd lefel y staff nyrsio yn ddigon o wybodaeth i gleifion, neu a ddylid nodi nifer

y staff ar ddyletswydd, gyda 17% o'r ymatebwyr yn gofyn am fwy o eglurder ynghylch y gwahaniaeth hwn.

3.34 Cafwyd nifer fawr o ymatebion gwahanol gan **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd**, gan ofyn am gyfeirio at nifer o agweddau gwahanol yn y rhan hon. Roedd hyn yn cynnwys mwy o fanylion am yr hyn oedd yn gyfystyr â "fformat hygyrch" ar gyfer rhoi gwybodaeth, dull i gleifion, ymwelwyr a staff godi pryderon, a gofyniad i staff y GIG gael hyfforddiant ar sut i roi'r wybodaeth hon. Ystyriodd un ymateb y dylai cleifion gael gwybod am lefel y staff Cymraeg eu hiaith.

3.35 Ym marn aelodau'r cyhoedd, roedd angen mwy o fanylion am ystyr "fformat hygyrch", ac y dylid cyfeirio'n fwy at Safonau'r Gymraeg.

Sefyllfaoedd lle mae adran 25B yn berthnasol

3.36 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.82, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod. Hon oedd y rhan â'r sgôr uchaf yn y canllawiau.

Sefyllfaoedd lle mae adran 25B yn berthnasol				Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb			
1	1			2.0%	1			
2	2			10.2%	5			
3	3			26.5%	13			
4	4			34.7%	17			
5	5			18.4%	9			
6	Ddim yn gwybod			8.2%	4			
Dadansoddi	Cymedr:	3.82	Gwriad Safonol:	1.15	Cyfradd Boddhad:	56.33	wedi ateb	49
	Amrywiant:	1.33	Cyfeiliornad Safonol:	0.16				

3.37 Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys staff y GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, o'r farn bod y rhan hon o'r canllawiau yn arbennig o glir.

3.38 Y cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnwyd oedd cwestiynau gweithredol am y meini prawf ar gyfer pennu p'un a ddylid cynnwys wardiau ai peidio. Ymhlith y meini prawf y gofynnodd ymatebwyr, ym mhob grŵp, am fwy o eglurder yn eu cylch roedd presenoldeb plant ar wardiau oedolion ac oedolion ifanc ar wardiau plant, ystyr triniaeth weithredol, beth y dylid ei wneud pan fo allgleifion clinigol a statws wardiau â chymysgedd o ofal aciwt a gofal nad yw'n aciwt. Hefyd, gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch statws wardiau gofal

iechyd parhaus a'r wardiau hynny sy'n rhai gofal dydd yn bennaf ond sydd â rhai gwelyau i gleifion mewnol.

3.39 Ar wahân i'r sylwadau gweithredol hyn, trafododd rhai ymatebwyr p'un a gafodd y Ddeddf ei hun ei chymhwyso i'r meysydd clinigol cywir ond cymysg fu'r farn yn hyn o beth. Nododd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn awyddus i feysydd clinigol eraill gael eu cynnwys yn y dyfodol.

Cyflwyniad i 25C

3.40 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.23, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod. Y rhan hon, ar y cyd â rhan arall, a gafodd y sgôr isaf yn y canllawiau.

Cyflwyniad i adran 25C						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	1					2.1%	1
2	2					25.0%	12
3	3					35.4%	17
4	4					25.0%	12
5	5					10.4%	5
6	Ddim yn gwybod					2.1%	1
Dadansoddi		Cymedr:	3.23	Gwriad Safonol:	1.07	Cyfradd Boddhad:	44.58
		Amrywiant:	1.13	Cyfeiliornad Safonol:	0.15		
						wedi ateb	48

3.41 Ym marn 14% o **staff y GIG** roedd y rhan hon o'r canllawiau yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd ei darllen. Fodd bynnag, roedd yr un gyfran o'r farn y dylai'r canllawiau nodi bod angen i'r person dynodedig gwrdd â staff wardiau er mwyn nodi anghenion, gan argymhell y dylai hyn ddigwydd naill ai bob wythnos neu bob mis. Cafodd yr holl sylwadau eraill gan staff y GIG eu gwneud gan ymatebwyr unigol, ac roeddent yn cynnwys ceisiadau am ragor o fanylion, y dylid nodi adnodd cynllunio'r gweithlu yn y canllawiau ac y dylid egluro p'un a allai'r gymhareb newid yn ddyddiol.

3.42 Hefyd gofynnodd 33% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** am i adnodd cynllunio'r gweithlu gael ei nodi yn y canllawiau. Hefyd, credai 25% o'r ymatebwyr hyn y dylai'r rhesymeg dros bennu lefel y staff gael ei chyflwyno i'r Bwrdd, tra'n gofyn am fwy o wybodaeth am ble y dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi. Ceisiodd ymatebwyr unigol yn y categori hwn eglurhad ynghylch sut y byddai'r canllawiau hyn yn cysylltu â'r rhaglen grymuso prif nyrsys wardiau, awgrymwyd y dylid defnyddio'r gymhareb fwyaf cyffredin yn hytrach na'r

gymhareb gyfartalog a gofynnwyd am fwy o gyfeiriadau at safonau proffesiynol, canllawiau a barn broffesiynol.

3.43 Ni chafwyd barn fynych ymhlith **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** ar y rhan hon o'r canllawiau. Ymhlith yr awgrymiadau roedd argymhellion y dylid ystyried llesiant staff, DPP, archwilio ac ymchwil, arweinyddiaeth a gofynion o ran y Gymraeg wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio. Adlewyrchodd un ymatebydd y farn y dylai'r gymhareb fwyaf cyffredin gael ei defnyddio yn hytrach na'r gymhareb gyfartalog. Credai ymatebydd arall y dylid nodi bod y canllawiau yn drech nag unrhyw ganllawiau blaenorol, fel egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio.

3.44 Nododd yr unig ymateb gan aelod o'r cyhoedd i'r rhan hon o'r canllawiau fod y rhan hon yn anodd ei deall.

Barn broffesiynol

3.45 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.5, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod.

11.2. Barn broffesiynol						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	1					4.2%	2
2	2					10.4%	5
3	3					33.3%	16
4	4					37.5%	18
5	5					12.5%	6
6	Ddim yn gwybod					2.1%	1
Dadansoddi		Cymedr:	3.5	Gwriad Safonol:	1.04	Cyfradd Boddhad:	50
		Amrywiant:	1.08	Cyfeiliornad Safonol:	0.15	wedi ateb	48

3.46 Roedd ymateb mwyaf cyffredin **staff y GIG** yn debyg i'r hyn a welwyd drwy gydol y canllawiau, y dylai barn broffesiynol gynnwys barn staff ar lawr gwlad. Ategwyd hyn gan 24% o staff y GIG. Roedd 14% o staff o blaid cynnwys y rhan hon yn y canllawiau tra cydnabu'r un gyfran y byddai heriau i recriwtio'r nifer ofynnol o staff. Credai cyfran lai o'r ymatebwyr fod y rhan hon yn gosod gormod o gyfrifoldeb ar un unigolyn, ac y dylid rhannu rôl y person dynodedig. Ymhlith y safbwyntiau eraill a leisiwyd gan ymatebwyr unigol roedd pryder ynghylch goddrychedd y dull gweithredu, pryder bod y dystiolaeth ar gyfer cynnydd staff

yn rhy hen ac y byddai angen ei hadolygu a sylw nad oedd y derminoleg ynghylch triongli yn hawdd ei deall.




3.47 Roedd 25% o'r ymatebwyr yn y categori **Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** am iddo gael ei nodi'n glir mai'r person dynodedig o'r strwythur nyrsio proffesiynol o ward i fwrdd sy'n cynghori ar farn broffesiynol. Hefyd, gofynnodd yr un gyfran am fwy o eglurder ynghylch ystyr "gwely hyblyg".




3.48 Nododd 17% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** fod y rhan hon o'r canllawiau yn ddefnyddiol, tra roedd yr un gyfran o'r farn y dylai swyddogaethau ward eraill fel gwasanaethau glanhau a bwyd gael eu rhestru ochr yn ochr â swyddogaethau gweinyddol, a gofynnwyd am eglurder ynghylch sawl gwaith y dylid cymhwysu'r ffigur cynnydd o 26.9%. Hefyd, nododd 17% o'r ymatebwyr hyn, heb adnodd cynllunio'r gweithlu rhagnodedig, y byddai barn broffesiynol ar ei phen ei hun yn llai cadarn. Ymhlith y materion a godwyd gan ymatebwyr unigol yn y categori hwn roedd ymholiad ynghylch p'un a ddylid cyfeirio at egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio yn y rhan hon o'r canllawiau.

3.49 Nododd 14% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** fod y rhan hon o'r canllawiau yn hynod ddefnyddiol. Cafwyd pob ymateb arall gan sefydliadau unigol. Ymhlith y rhain roedd y sylw a wnaed gan aelod o staff y GIG y dylid adolygu'r ffigur cynnydd o 26.9%. Ym marn un ymatebydd, dylai'r rhan hon o'r canllawiau gael ei hatgyfnerthu drwy nodi bod yn rhaid i'r meini prawf a restrwyd gael eu cynnwys yn y cyfrifiad, yn hytrach nag y gellir eu cynnwys. Awgrymwyd sawl diwygiad i'r meini prawf, gan gynnwys mwy o fanylion ar natur y swyddogaethau gweinyddol, nodi y dylai myfyrwyr nyrsio gael eu rhestru o dan weithiwr iechyd proffesiynol neu staff eraill oherwydd yr amser a gymerwyd i'w goruchwyllo ac y dylid cyfeirio at egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio yma. Nododd un ymatebydd hefyd y dylai siaradwyr Cymraeg gael eu cynnwys yn yr enghraifft a roddwyd o'r amodau sy'n berthnasol i'r gofal a ddarperir gan nyrs.

Adnodd Cynllunio'r Gweithlu sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

3.50 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.23, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod. Y rhan hon, ar y cyd â rhan arall, a gafodd y sgôr isaf yn y canllawiau.

Adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth			Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	1		10.4%	5
2	2		10.4%	5
3	3		41.7%	20

Adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
4	4					27.1%	13
5	5					4.2%	2
6	Ddim yn gwybod					6.3%	3
Dadansoddi	Cymedr:	3.23	Gwriad Safonol:	1.21	Cyfradd Boddhad:	44.58	wedi ateb 48
	Amrywiad:	1.47	Cyfeiliornad Safonol:	0.17			

3.51 Ceisiodd **staff y GIG** eglurhad ynghylch sut y byddai'r adnodd yn gweithio'n ymarferol, gyda 19% o'r ymatebwyr yn gofyn pwy fyddai'n defnyddio'r adnodd, a'r un gyfran yn holi sut y byddai'r adnodd yn cael ei ddilysu. Roedd 14% o staff y GIG o'r farn y dylai'r adnodd gael ei nodi yn y canllawiau, tra'n gofyn am fwy o eglurhad ynghylch yr hyn fyddai'r adnodd yn ei bennu.


3.52 Gofynnodd 41% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** am i adnodd cynllunio'r gweithlu penodol gael ei nodi yn y canllawiau. Nododd 10% o'r ymatebwyr y dylid nodi'n glir fod angen adnoddau gwahanol ar gyfer meysydd gwahanol. Ymhlith yr ymatebion a gafwyd gan ymatebwyr unigol roedd cais i atgyfnerthu'r canllawiau, drwy nodi y bydd y person dynodedig yn gweithredu ar ganlyniadau'r adnodd, nid yn eu hystyried. Hefyd, nodwyd bod angen mwy o gysondeb drwy gydol y ddogfen wrth gyfeirio at yr adnodd cynllunio'r gweithlu.






3.53 Roedd **sefydliad â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** hefyd o'r farn bod angen nodi adnodd cynllunio'r gweithlu penodol yn y canllawiau. Ymhlith y safbwyntiau eraill a wnaed gan ymatebwyr yn y categori hwn roedd argymell y dylai'r adnodd ystyried yr angen i gynllunio ar gyfer gweithlu dwyieithog ac y dylai meysydd clinigol ac anghenion arbenigol eraill gael eu cynnwys yn yr adnodd. Cydnabu un ymatebydd y problemau wrth ddilysu'r adnoddau hyn a thanlinellodd yr angen i'r prosesau ar gyfer pennu'r sail dystiolaeth fod yn gadarn.

3.54 Ymhlith y safbwyntiau a wnaed gan **aelodau o'r cyhoedd** roedd cais am well eglurhad o'r adnodd, a haerid bod tystiolaeth gan y claf yn bwysig ac y dylai'r adnodd ei hystyried.

Pan fo lles claf yn arbennig o sensitif i'r gofal a roddir gan nyrs

3.55 Sgôr gyfartalog y rhan hon oedd 3.32, gyda dadansoddiad o'r sgorau yn y tabl isod.

Pan fo lles claf yn arbennig o sensitif i'r gofal a roddir gan nyrs						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	1					10.6%	5

Pan fo lles claf yn arbennig o sensitif i'r gofal a roddir gan nyrs						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb	
2	2					10.6%	5	
3	3					29.8%	14	
4	4					36.2%	17	
5	5					10.6%	5	
6	Ddim yn gwybod					2.1%	1	
Dadansoddi	Cymedr:	3.32	Gwriad Safonol:	1.19	Cyfradd Boddhad:	46.38	wedi ateb	47
	Amrywiad:	1.41	Cyfeiliornad Safonol:	0.17				

3.56 Awgrymodd ymatebwyr ym mhob categori feini prawf ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y rhan hon o'r canllawiau. Argymhellodd 14% o staff y GIG ddangosyddion pellach y dylid eu cynnwys, gan gynnwys salwch a morâl staff, iechyd meddwl, hylendid a mynd i'r tŷ bach. Awgrymodd 17% o Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG y dylai dangosydd cleifion gael ei gynnwys gydag Ymddiriedolaeth arall yn argymhell y dylai dirywiad aciwt gael ei restru'n ddangosydd. Cafodd cynnwys dirywiad aciwt ei argymhell hefyd gan sefydliad â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, ynghyd â salwch staff. Teimlai aelod o'r cyhoedd y dylai addasiadau rhesymol ar gyfer pobl agored i niwed ag anabledd dysgu gael eu hadlewyrchu yma. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod y canllawiau yn galluogi Byrddau Iechyd i nodi a defnyddio eu dangosyddion eu hunain ar gyfer yr agwedd hon ar y dull triongli. Ym marn nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys 21% o sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, gellid bod yn fwy eglur ynghylch y math o ddangosyddion eraill y gellid eu hystyried, gydag enghreifftiau yn cael eu cynnig o bosibl.

3.57 Nododd 10% o **staff y GIG** ei bod hi'n anodd rhagweld pwysau a gofynion yn y dyfodol. Roedd yr un ganran o'r farn bod angen i'r gymhareb staffio ystyried meysydd sensitif i ofal. Hefyd nododd 10% o staff nad oes gan nyrsys yn aml yr amser i drin cleifion yn ddigon sensitif. Cododd ymatebydd arall bryder bod y dangosyddion a restrir yn y canllawiau yn fwyaf amlwg ymhlith yr eiddil oedrannus, nad ydynt efallai ar wardiau a gwmpesir gan y rhan hon o'r Ddeddf.

3.58 Argymhellodd 25% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** y dylid defnyddio'r term "niwed pwysu" yn lle "wlser pwysu". Roedd yr un ganran hefyd o'r farn bod angen diffiniad pellach o'r termau "sensitif" a "niwed". Holodd 17% p'un a ddylid ystyried unrhyw achos o gleifion yn cwmpo, wlserau pwysu neu gamgymeriadau wrth weinyddu meddyginiaethau, neu dim ond y rheini sy'n achosi niwed. Tynnwyd sylw at y gwahaniaeth rhwng y derminoleg yma ac yn adran adrodd y Ddeddf. Nododd 17% o'r ymatebwyr yn y categori hwn fod angen i'r canllawiau fod yn glir y gallai'r person dynodedig anwybyddu allbynnau

adnodd cynllunio'r gweithlu. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau gyfeirio at y sail dystiolaeth er mwyn cefnogi cynnwys y dangosyddion hyn.

- 3.59 Dywedodd 21% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** fod y rhan hon o'r canllawiau yn gadarnhaol ac yn helpu i weithredu'r Ddeddf. Ailadroddodd un ymatebydd gwestiwn Byrddau Iechyd ynghylch p'un a ddylid ystyried unrhyw achos o gleifion yn cwmpo / wlsrau pwysu / camgymeriadau wrth weinyddu meddyginiaethau neu dim ond y rheini sy'n arwain at niwed. Fodd bynnag, nododd ymatebydd arall ei bod hi'n iawn peidio â chyfyngu achosion i'r rheini sy'n arwain at niwed, gan y gallai'r rhai nad ydynt yn arwain at niwed gael eu hachosi gan brinder staff o hyd.
- 3.60 Ymatebodd **aelod o'r cyhoedd** drwy ddweud bod cwmpo yn dibynnu ar natur ward, ac fel y cyfryw na fyddai'n ddangosydd da o ran anghenion staffio.

Effaith y canllawiau ar y Gymraeg

- 3.61 Roedd dau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg yn yr ymgynghoriad. Gofynnodd y cwestiwn cyntaf am effeithiau'r canllawiau ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gofynnodd yr ail gwestiwn sut y gellid newid y canllawiau er mwyn cael mwy o effeithiau cadarnhaol a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Wrth ddadansoddi ymatebion i'r cwestiynau hyn, ystyriwyd rhai sylwadau gydag ymatebion i'r cwestiwn amgen, er mwyn gallu grwpio adborth yn well.
- 3.62 Soniodd 24% o **staff y GIG** am yr her o ddarparu gwasanaethau dwyieithog â lefelau staff presennol, o ganlyniad i nifer y staff yn gyffredinol a nifer y staff sy'n siarad Cymraeg. Ym marn 10% o staff dylid ymdrin â darpariaeth Gymraeg ar lefel leol, oherwydd gwahaniaethau rhanbarthol yn nifer y cleifion sy'n siarad Cymraeg. Rhannodd un ymatebydd enghraifft gadarnhaol o'r ffordd y caiff y Gymraeg ei defnyddio yn ei faes clinigol, gan nodi bod staff sy'n siarad Cymraeg wedi'u nodi'n glir ar y ward a bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei annog. Roedd ymatebydd arall yn pryderu y gall gofyniad i benodi nifer benodol o siaradwyr Cymraeg gael effaith andwyol ar recriwtio.
- 3.63 O ran newidiadau y gellid eu gwneud i'r canllawiau, roedd 29% o **staff y GIG** o'r farn y dylai'r canllawiau nodi y dylai cyfleoedd hyfforddiant gael eu cynnig er mwyn galluogi staff i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg. Ymatebodd 10% o staff y dylai'r canllawiau nodi y dylai Byrddau Iechyd benodi mwy o staff

ddwyieithog. Nododd un aelod o staff y dylai'r canllawiau gynnwys cyfarwyddyd ar y ffordd orau o ddefnyddio staff sy'n siarad Cymraeg.

3.64 Nid oedd 25% o **Fyrddau lechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** o'r farn bod y canllawiau yn cael unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg. Ni nododd unrhyw ymatebydd yn y categori hwn y byddai'r canllawiau yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Cododd 42% o **Fyrddau lechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** bryderon y byddai ei gwneud yn ofynnol i benodi nifer benodol o siaradwyr Cymraeg yn cael effaith andwyol ar recriwtio. Nododd 33% o'r ymatebwyr yn y categori hwn y byddai angen i'r canllawiau gael eu darparu'n ddwyieithog.

3.65 Ymatebodd 17% o **Fyrddau lechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** drwy ddweud y dylai'r canllawiau roi mwy o fanylion ar sut i hysbysu cleifion o lefel y staff yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac y gallai'r canllawiau gynnig atebion creadigol a fyddai o fudd i siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

3.66 Nododd 21% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** y dylid cyfeirio at y rhwymedigaeth i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn rhagweithiol, fel y nodir yn strategaeth "*Mwy na Geiriau*". Ymatebodd 21% o sefydliadau drwy ddweud y dylai'r canllawiau ei gwneud yn ofynnol, wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio, i'r person dynodedig ystyried nifer y staff Cymraeg eu hiaith sydd ei hangen. Nodwyd hefyd y dylai'r canllawiau ac unrhyw wybodaeth gyhoeddus arall fod yn ddwyieithog.

3.67 Nododd **aelod o'r cyhoedd** nad oedd angen rhagor o fanylion yn y canllawiau hyn am fod strategaeth *Mwy na Geiriau* eisoes ar waith. Dylai Byrddau lechyd ddangos cydymffurfiaeth â'r strategaeth hon, ynghyd â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Dywedodd aelod arall o'r cyhoedd y dylai sgiliau Cymraeg gael eu hystyried wrth benodi graddedigion.

Canllawiau statudol pellach ar gynllunio'r gweithlu

3.68 Gall y canllawiau wneud darpariaeth ynghylch trefniadau cynllunio'r gweithlu y gall Byrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswydd i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio. Gofynnodd yr ymgynghoriad a fyddai canllawiau o'r fath yn fuddiol, a pha fath o wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys mewn unrhyw ganllawiau o'r fath. Roedd 51% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai canllawiau pellach yn fuddiol. Fodd bynnag, ni nododd nifer o'r ymatebwyr hyn faterion penodol i'w cynnwys, nac awgrymu y byddai canllawiau anstatudol yn fuddiol.

- 3.69 Roedd 67% o **staff y GIG** am weld canllawiau ychwanegol ar gynllunio'r gweithlu yn cael eu darparu, gyda 24% yn gofyn am esboniad pellach o adnoddau cynllunio'r gweithlu. Roedd 19% o staff y GIG am gael canllawiau ychwanegol ar salwch staff a'r ffactorau cysylltiedig â gwaith sy'n cyfrannu at hyn. Roedd 10% o staff am gael canllawiau penodol ar gynllunio'r gweithlu ym maes materion staffio sy'n ymwneud â phwysau yn ystod y gaeaf. Ymhlith yr argymhellion eraill roedd esboniad pellach o'r dull triongli, canllawiau ar ddefnyddio staff asiantaeth a chyfarwyddyd ar gael hyfforddiant / absenoldeb astudio. Roedd 10% o staff am gael canllawiau yn nodi egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio, gan gynnwys cymhareb staffio.
- 3.70 Ymatebodd 58% o **Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG** y byddai canllawiau ychwanegol ar gynllunio'r gweithlu yn fuddiol, gyda 17% yn nodi nad oedd angen hynny. Ni fyddai nifer o'r argymhellion am ganllawiau pellach a wnaed gan yr ymatebwyr hyn yn gofyn am ganllawiau statudol penodol. Gofynnodd 25% am adnoddau cam wrth gam ym maes cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys adnoddau ar-lein i'w defnyddio gan staff. Nododd yr un gyfran y byddai angen i ganllawiau penodol gael eu cynnwys yng nghylch cynllunio CTCI. Roedd 25% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai canllawiau manylach ar adnodd cynllunio'r gweithlu yn fuddiol, tra roedd 17% o'r farn y dylid cyhoeddi canllawiau ar gomisiynu addysgol.
- 3.71 Roedd 43% o **sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd** o'r farn y byddai canllawiau ychwanegol ar gynllunio'r gweithlu yn fuddiol. Ymatebodd 21% nad oedd angen canllawiau ychwanegol am fod canllawiau ar gynllunio'r gweithlu eisoes ar gael. Gwnaed ystod eang o argymhellion ar gyfer materion y gellid eu cynnwys mewn canllawiau pellach. Ymhlith y rhain roedd dulliau cyfrifo ac adrodd ar gyfer Byrddau Iechyd, comisiynu addysgol a mwy o fanylion am adnodd cynllunio'r gweithlu. Nododd un ymatebydd y dylai egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio gael eu cynnwys mewn canllawiau ar gynllunio'r gweithlu. Nododd ymatebydd arall y dylid cyhoeddi canllawiau yn nodi dangosyddion rhybudd coch ym maes staffio, fel gwybodaeth am absenoldeb oherwydd salwch, oriau gwaith uwchlaw'r contract a cholli egwyl. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at ddarpariaeth yn Gymraeg, gan gynnwys sut i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol a sut i recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg.

Materion cysylltiedig

- 3.72 Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr nodi unrhyw faterion perthnasol nad oeddent yn codi'n benodol mewn rhan arall o'r ddogfen ymgynghori.

Codwyd ystod eang o faterion, ac ymdriniwyd â rhai ohonynt mewn rhannau eraill o'r adroddiad.

- 3.73 Y sylw mwyaf cyffredin, a wnaed gan 33% o Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliad â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, oedd y dylid darparu canllawiau ar y dyletswyddau monitro ac adrodd yn y Ddeddf. Yn ôl yr ymatebwyr, roedd yn bosibl mai canllawiau anastatadol oedd y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer y wybodaeth hon.
- 3.74 Roedd mater mynych arall, a godwyd gan 25% o Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliad â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, yn ymwneud â sut y byddai'r person dynodedig neu'r Bwrdd Iechyd yn cael ei ddwyn i gyfrif am lefelau staff, a sut y gellid ei gosbi am beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf.
- 3.75 Cwestiynodd 14% o sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd rôl Nyrsys Cyswllt o dan y Ddeddf, gan nodi bod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cytuno i reoleiddio rôl Nyrsys Cyswllt.
- 3.76 Codwyd mater cymysgedd sgiliau ar wardiau gan nifer o'r ymatebwyr, gydag un ymatebydd yn argymhell y dylai lefelau staff pob aelod o staff gael eu rhoi i Fforymau Partneriaeth Lleol bob chwarter. Codwyd y pryder hwn hefyd gan gyrrff a gynrychiolai broffesiynau meddygol eraill.
- 3.77 Pwysleisiwyd hefyd na ddylai'r Ddeddf esgor ar ganlyniadau anfwriadol i feysydd clinigol nas cwmpeisir gan y ddeddfwriaeth. Gwnaed y pwynt hwn drwy gydol yr ymgynghoriad. Awgrymodd un Bwrdd Iechyd y byddai canllawiau ar y ddyletswydd gyffredinol yn y Ddeddf i sicrhau bod digon o nyrsys fel bod digon o amser ar gael ganddynt i ofalu am gleifion mewn ffordd sensitif yn helpu i leihau'r risg o'r canlyniad anfwriadol hwn.
- 3.78 O ran y mater hwn, argymhellwyd y dylai'r Ddeddf hefyd gwmpasu meysydd clinigol eraill, fel lleoliadau pediatrig a lleoliadau cleifion mewnol cymunedol.
- 3.79 Nododd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys aelodau o staff, Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd y byddai angen i Fyrddau Iechyd gael mwy o arian er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Nodwyd yn arbennig y dylid darparu arian i allu gweithredu'r systemau electronig sy'n ofynnol yn unol â'r dull hwn o weithredu.
- 3.80 Codwyd egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Nyrsio gan sefydliad â buddiant yn y gwasanaeth iechyd. Nodwyd y dylai'r egwyddorion hyn gael sylw penodol yn y canllawiau. Rhoddwyd sylw penodol i gynnwys cymhareb cleifion a nyrsys 7:1 a rôl ychwanegol Prif Nyrs y Ward. Lleisiwyd hyn

hefyd gan nifer o gardiau post a ddaeth i law ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Cafodd y cardiau post hyn eu paratoi gan y Coleg Nyrsio Brenhinol yng Nghymru a nodwyd y dylai egwyddorion y Prif Swyddog Nyrsio gael eu cynnwys yn y canllawiau statudol. Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pam eu bod o'r farn bod lefelau staff nyrsio diogel yn bwysig. Daeth 121 o'r cardiau post hyn i law. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn yn cydnabod pwysigrwydd lefelau staff priodol o ran diogelwch cleifion.

- 3.81 Nododd 10% o staff y GIG fod yn rhaid annog staff i roi gwybod am lefelau staff anniogel, ac awgrymwyd hefyd fod yn rhaid i gleifion wybod sut i godi pryderon.
- 3.82 Cododd sefydliad â buddiant yn y gwasanaeth iechyd bryder ynghylch y ffaith y gallai Cymru fod yn arafach i fabwysiadu adnoddau newydd, o ystyried y gofyniad i adnoddau cynllunio'r gweithlu gael eu dilysu i'w defnyddio mewn cyd-destun Cymreig.
- 3.83 Gwnaeth nifer o ymatebwyr na wnaethant ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad nodi sut roedd y Ddeddf a'r canllawiau yn ymwneud â'u sefydliad, ac effaith debygol y Ddeddf. Pwysleisiodd yr NMC sut y byddai angen i'r canllawiau ryngweithio â Chod yr NMC.
- 3.84 Gan ailadrodd sylwadau a wnaed mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, cododd nifer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y ffaith y gallai fod yn anodd gweithredu, o ystyried heriau recriwtio presennol, er bod y Ddeddf a'r canllawiau yn gadarnhaol eu bwriad.
- 3.85 Er gwaethaf hyn, tanlinellodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd y ddeddfwriaeth o ystyried ei photensial i helpu cleifion a staff. Atseiniwyd hyn mewn nifer o ymatebion na wnaethant ymateb yn benodol i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Tanlinellodd yr ymatebwyr yr effaith a gaiff lefelau staff ar lesiant staff.

4 Y Camau Nesaf

5.1 Mae'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion yn y ddogfen hon yn sail i ailddrafftio canllawiau statudol i ategu'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Er na fydd modd cynnwys pob sylw, yn enwedig lle mae gwahaniaeth barn ymhlith yr ymatebwyr neu lle nad yw pwerau o dan y Ddeddf yn ein galluogi i ymgorffori'r diwygiadau a awgrymwyd, bydd y canllawiau yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymgynghoriad lle bo modd.

5.2 Cyhoeddir y canllawiau statudol yn Gymraeg a Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2017.

5.3 Daw gweddill yr adrannau yn y Ddeddf, 25B, 25C a 25E, i rym ar 6 Ebrill 2018. Bydd cyfle i ragor o ganllawiau anstatudol gael eu darparu ar adran 25E cyn y dyddiad hwn.